Dinas a Sir Abertawe

# Cofnodion Cyfarfod y Cyd-Bwyllgor Dinas-Ranbarth Bae Abertawe

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 29 Gorffennaf 2021 am 9.00 am**

**Yn Bresennol:** Cynghorydd Rob Stewart (Cyngor Abertawe) oedd yn llywyddu

**Y Cynghorwyr:**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Emlyn Dole | Cyngor Sir Gâr |
| Y Cynghorydd Leanne Jones | Neath Port Talbot CBC |
| Y Cynghorydd David Simpson | Cyngor Sir Benfro |

**Cynrychiolwyr Cyfetholedig Heb bleidlais:**

| | |
|---|---|
| Chris Foxall | Cadeirydd dros dro Bwrdd Strategaeth Economaidd Abertawe |
| Medwin Hughes | Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant |
| Steve Wilks | Prif Ysgol Abertawe |

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| Richard Arnold | Rheolwr Cyllid (Dinas-ranbarth Bae Abertawe) |
| Richard Brown | Prif Weithredwr Dros Dro (Cyngor Sir Benfro) |
| Jonathan Burnes | Cyfarwyddwr (Dinas-ranbarth Bae Abertawe) |
| Karen Jones | Prif Weithredwr (Cyngor Castell-nedd Port Talbot) |
| Allison Lowe | Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant |
| Tracey Meredith | Swyddog Monitro'r Cyd-bwyllgor (Cyngor Abertawe) |
| Chris Moore | Swyddog Adran 151 y Cyd-bwyllgor (Cyngor Sir Gâr) |
| Martin Nicholls | Cyfarwyddwr Lleoedd (Cyngor Abertawe) |
| Phil Ryder | Swyddfa Rhaglen Bargen Ddinesig Bae Abertawe |

**Hefyd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Geraint Flowers | Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant |
| Jason Garcia | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Jane Lewis | Arweinydd Rhaglen Sgiliau a Thalent |
| Barry Liles | Uwch-swyddog Cyfrifol Sgiliau a Thalent |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb:**

Y Cynghorydd(wyr) Ted Latham (Cyngor Castell-nedd Port Talbot)

Maria Battle (Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda) a/ac Emma Woollett (Bwrdd Lechyd Prifysgol Bae Abertawe)
Wendy Walters (Prif Weithredwr (Cyngor Sir Gâr))

---

**66 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Cod Ymddygiad, datganwyd y buddiannau canlynol:

Datganodd Medwin Hughes, Geraint Flowers a Barry Liles gysylltiadau personol â chofnod Rhif 73, "Ardal Ddigidol Dinas Abertawe a'r Glannau – Cais am newid y matrics arloesedd".

**67 Cyhoeddiad/Cyhoeddiadau'r Cadeirydd.**

Nid oedd unrhyw gyhoeddiadau.

**68 Cwestiynau gan y Cyhoedd.**

Ni chafwyd cwestiynau gan y cyhoedd.

**69 Adroddiad Archwilio Cymru ar Ddatganiad o Gyfrifon Cyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe 2020/2021.**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am roi barn ynghylch a yw'r Datganiad o Gyfrifon yn dangos darlun gwir a theg o sefyllfa Cyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe ar 31 Mawrth 2021. Roedd yr adroddiad yn crynhoi canfyddiadau'r archwiliad a gynhaliwyd.

Hon oedd y flwyddyn gyntaf i Gyd-bwyllgor Bargen Ddinesig Bae Abertawe lunio Datganiad o Gyfrifon yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, fel y'u diwygiwyd yn 2018. Cafodd y Datganiad o Gyfrifon ei archwilio gan Archwilio Cymru, gyda'r llythyr archwilio yn cynnwys y farn archwilio a'r canfyddiadau wedi'u cyflwyno yn atodiad A.

Roedd Jason Garcia, Archwilio Cymru yn falch o gyflwyno barn archwilio ddiamod am y datganiadau ariannol a thynnodd sylw at y canlynol:

- Gan fod y taliadau cyntaf gwerth dros £11m wedi'u dyrannu i Awdurdodau Lleol unigol o gyfrif y Fargen Ddinesig, roedd y perthnasedd yn seiliedig ar wariant gros ac amlinellodd paragraff 4 y ffaith bod £118,785 yn berthnasol ar gyfer yr archwiliad eleni;
- Roedd lefel perthnasedd is wedi'i gosod ar gyfer:
  - Tâl Uwch-staff - £1,000
  - Datgeliadau Partïon Cysylltiedig ar gyfer swyddogion ac aelodau - £1,000;
- Ni dderbyniwyd unrhyw ohebiaeth mewn perthynas â'r alwad archwilio mewn perthynas â'r cyfrifon gan etholwyr llywodraeth leol erbyn y dyddiad cau, sef 28 Gorffennaf 2021;
- Manylwyd ar effaith COVID-19 yn Arddangosyn 1;

- Amlinellwyd un mater arwyddocaol a gododd o'r archwiliad yn Arddangosyn 2;
- Atodiad 1 – templed y llythyr cynrychiolaeth;
- Atodiad 2 – geiriad y farn archwilio;
- Atodiad 3 – crynodeb o'r diwygiadau – fodd bynnag, ni chafodd yr un o'r gwallau effaith ar gyfanswm y ffigurau incwm cynhwysfawr ar ddiwedd y flwyddyn.

Ar ôl cymeradwyo'r Cyfrifon a'r llythyr cynrychiolaeth yn ffurfiol, byddai Mr Garcia yn cwrdd â'r Archwilydd Cyffredinol y diwrnod canlynol er mwyn llofnodi'r farn archwilio o fewn y terfyn amser statudol sef 31 Gorffennaf 2021.

Diolchodd y Cadeirydd i gynrychiolydd Archwilio Cymru am gyflwyno ei adroddiad dymunol iawn.

Diolchodd y Swyddog A151 hefyd i gynrychiolydd Archwilio Cymru a'i dîm am y gwaith a wnaed a chadarnhaodd nad oedd y cofnodion yn Atodiad 3 yn effeithio ar y llinell waelod a'u bod yn faterion ailddosbarthu a chyflwyno.

**Penderfynwyd** bod Cyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe yn derbyn archwiliad Archwilio Cymru o adroddiad Datganiad o Gyfrifon 2020/2021 ar gyfer Cyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe.

## 70 Datganiad o Gyfrifon Cyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe 2020/2021.

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad i geisio cymeradwyaeth y Cyd-bwyllgor ar gyfer Datganiad o Gyfrifon Blynyddol Rhaglen Bargen Ddinesig Bae Abertawe ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/2021.

Diolchodd y Swyddog A151 hefyd i Richard Arnold am ymgymryd â'r rhan fwyaf o'r gwaith ar ddogfen sy'n cydymffurfio'n dda iawn.

**Penderfynwyd** y bydd Cyd-bwyllgor Dinas-Ranbarth Bae Abertawe yn cymeradwyo Datganiad o Gyfrifon Bargen Ddinesig Bae Abertawe 2020/2021 ar ôl ei archwilio.

## 71 Llythyr Sylwadau i Archwilio Cymru.

Cyflwynodd Swyddog Adran 151 Bargen Ddinesig Bae Abertawe adroddiad i dderbyn cydnabyddiaeth ffurfiol Cyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe o'r Llythyr Cynrychiolaeth i Archwilio Cymru.

**Penderfynwyd** bod Cyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe yn cydnabod y Llythyr Cynrychiolaeth gan Swyddog Adran 151 Bargen Ddinesig Bae Abertawe a Chadeirydd Cyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe i Archwilio Cymru yn amodol ar ddyddiad cymeradwyo'r llythyr sy'n cael ei ddiwygio o 10 Medi 2021 i 29 Gorffennaf 2021.

## 72 Achos Bunses Sgiliau a Thalent Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

Cyflwynodd Barry Liles, Uwch-berchennog Cyfrifol a Chadeirydd y Grŵp Datrysiadau Sgiliau a Jane Lewis, Arweinydd y Rhaglen, adroddiad a chyflwyniad er mwyn i Gyd-

bwyllgor Dinas-Ranbarth Bae Abertawe gymeradwyo Achos Busnes y Rhaglen Sgiliau a Thalent, fel un o'r rhaglenni ym Mhortffolio Bargen Ddinesig Bae Abertawe, gyda'r bwriad o dynnu £10m o fuddsoddiad refeniw i lawr.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Bydd y Cyd-bwyllgor yn cymeradwyo cyflwyno'r Achos Busnes Sgiliau a Thalent yn ffurfiol i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i'w gymeradwyo;
2) Bydd y Cyd-bwyllgor yn rhoi pwerau dirprwyedig i Uwch-berchennog Cyfrifol y Rhaglen mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwyr perthnasol ac Aelodau'r Cabinet mewn Awdurdodau cyfansoddol i wneud unrhyw fân ddiwygiadau i'r Achos Busnes yn ôl yr angen i gael y gymeradwyaeth honno.

**73 Ardal Ddigidol Dinas Abertawe a'r Glannau - Cais am newid y matrics arloesedd.**

Cyflwynodd Medwin Hughes a Geraint Flowers, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant adroddiad i roi gwybod i Gyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe am y cais am newid sy'n ymwneud ag Ardal Ddigidol Dinas Abertawe a'r Glannau - Matrics Arloesedd.

Roedd y Pentref Blychau bellach wedi dod yn Fatrics Arloesedd newydd, ardal o ansawdd uwch, ychydig yn fwy a fyddai'n caniatáu mwy o hyblygrwydd a defnydd gan denantiaid.

Sicrhawyd cyllid y Sector Preifat yn gytundebol a byddai wedi sicrhau digon o fuddsoddiad gan y sector preifat i fodloni gofynion y cynllun. Fodd bynnag, nid oedd partner y sector preifat wedi bod yn agored ac o ganlyniad, byddai'r Brifysgol yn cael ei gorfodi i gyflawni'r prosiect heb bartner yn y sector preifat. Byddai hyn i bob pwrpas yn trosglwyddo'r £1.9m o fuddsoddiad gan y sector preifat i Innovation Precinct, na fyddai'n cael ei ddarparu am oddeutu 3 blynedd.

O ganlyniad i'r ddau bwynt hyn a chyda goblygiadau TAW gan y byddai'r Brifysgol yn cyflawni'r prosiect yn uniongyrchol, byddai gan y Matrics Arloesedd fwlch ariannu disgwyliedig o £5.716m. Er mwyn unioni hyn, cynigiodd y Brifysgol ailddyrannu £5.716m o gyllid presennol y Fargen Ddinesig o'r prosiect Innovation Precinct i alluogi cychwyn y Matrics Arloesedd.

Nodwyd nad cais am arian ychwanegol oedd y cais hwn am newid ac y byddai'n cael ei anfon at Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i'w gymeradwyo.

**Penderfynwyd** bod Cyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe yn cymeradwyo'r cais am newid i ail-broffilio cyllid y Fargen Ddinesig er mwyn cyflawni Prosiect Matrics Arloesedd Ardal Ddigidol Dinas a Glannau Abertawe, yn amodol ar Lywodraeth Cymru/Lywodraeth y DU yn cymeradwyo'r cais a'r prosiect diwygiedig.

## 74 Adroddiad ar Brif Bwyntiau Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

Cyflwynodd Phil Ryder adroddiad "er gwybodaeth" a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyd-bwyllgor am gynnydd y gwahanol raglenni a phrosiectau sy'n rhan o Bortffolio Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

Rhoddodd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyd-bwyllgor ac amlinellodd y sefyllfa bresennol mewn perthynas â'r meysydd canlynol:

- Yr Egin
- Prosiect Morol Doc Penfro
- Ardal Ddigidol Dinas Abertawe a'r Glannau
- Pentre Awel
- Isadeiledd digidol
- Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer
- Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel
- Campysau Gwyddor Bywyd a Lles
- Sgiliau a doniau

Soniodd y Cadeirydd am y newyddion da am y cyllid sylweddol ar gyfer Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer.

Dywedodd Chris Foxall fod adolygiad porth wedi'i bennu ar gyfer 12 Awst ac y byddai'n trefnu ymweliad safle cyn y dyddiad hwnnw.

Daeth y cyfarfod I ben am 9.58 am

**Cadeirydd**